

**GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHREDU MEWN MEYSYDD  
DATGANOLEDIG**

**021 - Rheoliadau Asiantaethau'r UE (Dirymiadau) 2022**

*Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 1 Rhagfyr 2022*

**Sifftio**

Yn destun gwaith sifftio yn Senedd y DU?	Na
Gweithdrefn:	Gwneud negyddol
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin	N/A
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi	N/A
Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU	N/A
Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol (SICM) o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol)	Dim angen

**Gweithdrefn graffu**

Canlyniad y broses sifftio	N/A
Gweithdrefn	Gwneud negyddol
Dyddiad trafod gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol	Anhysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin	Anhysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi	Anhysbys

**Y cefndir**

Bwriedir i'r Rheoliadau gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adran 8(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

**Crynodeb**

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu darpariaethau deddfwriaethol yr UE sydd wedi parhau i weithredu fel rhan o gyfraith ddomestig ers diwedd y cyfnod gweithredu er gwaethaf y ffaith bod y Deyrnas Unedig wedi gadael dwy asiantaeth yr UE y maent yn ymwneud â hwy:

- Caiff **Rheoliad (CE) Rhif 1339/2008** ei ddiddymu gan nad yw'r Deyrnas Unedig bellach yn cymryd rhan yn y Sefydliad Hyfforddiant Ewropeaidd. Asiantaeth ddatganoledig o'r Undeb Ewropeaidd yw'r Sefydliad Hyfforddiant Ewropeaidd (ETF) sydd wedi'i lleoli yn Turin, yr Eidal. Mae'r ETF yn cefnogi gwledydd o amgylch yr Undeb Ewropeaidd i ddiwygio eu systemau addysg, hyfforddiant a'r

farchnad lafur i fanteisio ar botensial eu cyfalaf dynol yng nghydestun polisi cysylltiadau allanol yr UE. Ar hyn o bryd mae'r ETF yn gweithio gyda 29 o wledydd partner cyfagos yr UE gan gynnwys y gwledydd sy'n paratoi ar gyfer ymuno â'r UE. Roedd y DU yn ariannu ETF fel Aelod-wladwriaeth drwy ei chyfraniad i gyllideb yr UE.

- Caiff **Rheoliad (UE) Rhif 2019/128** ei ddirymu gan nad yw'r Deyrnas Unedig bellach yn cymryd rhan yn y Ganolfan Ewropeaidd ar gyfer Datblygu Hyfforddiant Galwedigaethol, a elwir yn "Cedefop". Asiantaeth yr UE yw Cedefop sy'n darparu canolfan gyfeirio ar gyfer addysg a hyfforddiant galwedigaethol, gan gefnogi'r gwaith o ddatblygu polisïau addysg a hyfforddiant galwedigaethol Ewropeaidd (VET) a chyfrannu at eu gweithredu. Mae Cedefop yn darparu ffynhonnell wybodaeth am bolisïau VET, dadansoddiadau cymharol ac arbenigedd a gesglir drwy ymchwil a rhwydweithio. Mae'n cyfrannu at ddadansoddiad a gynhelir wrth ddatblygu polisïau VET domestig a meincnodi yn erbyn polisïau mewn gwledydd eraill.

### **Datganiad gan Lywodraeth Cymru**

Mae Cynghorwyr Cyfreithiol y Senedd yn cytuno â'r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru dyddiedig 5 Rhagfyr 2022 ynghylch effaith y Rheoliadau hyn.

### **Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)**

Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith ac i ba raddau y byddai'r Rheoliadau hyn yn deddfu polisi newydd mewn meysydd datganoledig.

Nid yw Cynghorwyr Cyfreithiol y Senedd o'r farn bod unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.